

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 9 HYDREF 2018

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Phillips, Taylor a/ac
Singh

Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig
Rufeinig)

31 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Morgan, y
Cynghorydd Murphy, Carol Cobert, Rebecca Crump a Karen Del'Armi.

32 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiad buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

33 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2018 yn gofnod cywir a
chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

34 : MODEL CYFLAWNI NEWYDD AR GYFER HELP A CHYMORTH I DEULUOEDD YNG NGHAEADYDD – ADRODDIAD CABINET DRAFFT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet – Plant a
Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Claire
Marchant (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol) a Jane Thomas
(Cyfarwyddwr Corfforaethol, Tai a Chymunedau) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad wnaeth nodi
bod y MASH wedi'i gyflwyno yn 2016. Roedd llai na 20% o atgyfeiriadau MASH yn
symud ymlaen i ymyrraeth gan y Gwasanaethau Plant; Sail y model newydd yw dod
â gwasanaethau presennol ynghyd i fod yn dri gwasanaeth newydd, un o'r rhain yw'r
porth teulu sef y prif lwybr i bob atgyfeiriad a chais am gymorth.

Rhoddodd y Cyfarwyddwyr a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol gyflwyniad i'r Aelodau,
Gwella Canlyniadau i Blant: Help a Chymorth Teuluol

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau sut roedd swyddogion yn mynd i fynd ar ôl y rheiny oedd yn
siarad ieithoedd eraill, gan ofyn am yr hyfforddiant fyddai'n cael ei gynnig. Nododd y
swyddogion y byddai staff sy'n siarad Cymraeg a staff oedd yn siarad ieithoedd
cymunedol yn cael eu recriwtio, a byddai staff wastad yn cael mynediad at y linell
ieithoedd. Roedd ystod eang o ieithoedd yn cael eu siarad yn yr hybiau, ac roedd
Gwasanaeth Cyfieithu Cymru bellach yn rhan o swyddogaeth C2C, ac roeddent yn
cynnig cymorth ieithyddol yng Nghaerdydd a gydol Cymru. Byddai tîm datblygu'r
gweithlu; byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu a'i werthuso, drwy archwilio,

gwrando ar alwadau ffôn a byddai Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn cael ei rhoi ar waith. Roedd yn bwysig bod bob aelod o staff yn ymwybodol o'r help sydd ar gael.

Cafodd yr Aelodau wybod bod llawer o bobl wedi mynychu'r gweithdy aml-asiantaeth ar 24 Medi, gyda dros 45 o gynrychiolwyr o nifer o sefydliadau. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau nad oedd ymateb wedi'i dderbyn gan bob un o'r cynrychiolwyr oedd wedi'u gwahodd.

Cafodd aelodau sicrwydd y byddai'r rhif ffôn cyswllt yn cael ei rannu'n eang.

Trafododd yr Aelodau'r trefniadau TUPE Teuluoedd yn Gyntaf, a chawsant wybod bod rhai aelodau staff oedd wedi trosglwyddo'n unol â'r trefniadau eraill wedi gadael, a bod rhai eraill heb adael, fodd bynnag roedd y rheiny oedd dal yno wedi mynd ar lawer o hyfforddiant. Holodd yr Aelodau faint o deuluoedd oedd wedi elwa ar ymyrraeth gyda'r staff hynny oedd wedi trosglwyddo'n unol â'r trefniadau TUPE a chawsant wybod y byddai gwybodaeth yn ei rhannu. Cafodd yr Aelodau wybod er na fyddai'r ffigyrau penodol yn wybyddus nes bod y broses ar ben, disgwylir y bydd oddeutu 15 o aelodau staff Tŷ Storrie'n trosglwyddo'n unol â threfniadau TUPE.

Ceisiodd yr Aelodau eglurder ynghylch pam oedd 51.8% a gyfeiriwyd at MASH heb arwain at unrhyw gamau gweithredu. Cafodd yr Aelodau wybod gan y Swyddogion am y rhesymau; roedd y rhai'n alwadau sy'n cael eu gwneud i leoli a siarad â Gweithwyr Cymdeithasol, ac mae rhai'n atgyfeiriadau gan yr heddlu, sydd at ddibenion gwybodaeth yn unig. Mae'n bwysig bod monitro data eglur.

Nododd yr Aelodau er y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i fantoli'r cyllid o £500k er mwyn gweithredu'r model, disgwylir y byddai angen cyllid blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai'r trosglwyddiad i'r model darparu newydd yn rhwydd. Rhoddodd y swyddogion wybod y byddai staff yn cael eu recriwtio ac yn cael hyfforddiant cyn i'r model newydd fod yn weithredol; bydd yn wasanaeth newydd i rai ond i bobl eraill bydd yn barhad o'u gwaith presennol. Hyd yma, nid yw'r Cabinet wedi gwneud penderfyniad, unwaith y bydd penderfyniad byddai ymgynghoriad gyda'r Undebau Llafur yn cael ei gynnal.

Trafododd yr Aelodau codi cyrhaeddiad a pha mor bwysig oedd sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol, wedi cael brechwast, yn lân ac yn mynd i'r ysgol ar amser. Gall ymyriadau mewn perthynas â rhianta, incwm, cyngor ar ddyledion a thai gael effaith ar blentyn yn mynd i'r ysgol yn barod i ddysgu yn seicolegol. Mae angen ystyried rheoli perfformiad mewn ysgolion, e.e. gwaharddiadau a'r rhesymau dros yr ymddygiad hedfan neu ymladd. Mae'n rhaid lleihau'r straen y maent yn ei brofi.

Ceisiodd yr Aelodau eglurder ar y dystiolaeth sy'n awgrymu nad oedd diwylliannau eraill yn adrodd na'n ymgysylltu â'r gwasanaeth. Nododd y Swyddogion bod pobl o gefndiroedd ethnig penodol yn llai tebygol o ofyn am gymorth, yn benodol pan fo'r gymorth hwnnw'n ymwneud â rhyw fath o drais domestig. Mae'n bwysig adeiladu ymddiriedaeth gyda phobl o gefndiroedd ethnig gwahanol, sy'n cymryd amser, mae hefyd yn help i fod ag aelodau staff o gefndiroedd ethnig gwahanol. Nododd yr Aelodau bod atgyfeiriadau'n anodd o ddwyrain y Ddinas.

Nododd yr Aelodau amrywiaeth y ddarpariaeth ledled y ddinas sy'n gwneud delio â galwadau'n dasg anodd. Roeddent yn pryderu a oes gennym y patrwm cywir o ddarpariaeth. Nododd y Swyddogion bod y Gwasanaethau Gwybodaeth yn hanfodol bwysig. Mae'n bwysig bod teuluoedd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhif ffôn i alluogi'r awdurdod i ddeall anghenion y teulu i sicrhau bod y math cywir a'r lefel cywir o gymorth ar gael. Nodwyd mewn rhai ardaloedd does dim digon o ddarpariaeth, ac mae gormod mewn rhai eraill.

Cafodd y Pwyllgor wybod er y croesawir ymyriad Comisiynydd Pobl Ifanc, nid oes ei angen ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pan fo manylion pellach ar gael, bydd rhagor o ymgynghoriad. Mae'r swyddogion yn nodi bod llais pobl ifanc a'r teulu'n bwysig iawn, ynghyd â'r camau gwahanol o ymgynghori a gweithredu.

Roedd yr Aelodau'n poeni a oedd y dyddiad gweithredu ym mis Ebrill 2019 yn realistig ac a fyddai modd ei gyflawni. Nododd y Swyddogion bod y contractau presennol yn gorffen ar 31 Mawrth, ac felly mae'n rhaid i'r gwasanaethau craidd fod ar waith erbyn hynny, er y disgwylir y bydd angen i'r gwasanaeth barhau i ddatblygu. Mae'n hanfodol bod y model a ddatblygir yn addas at y diben.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

35 : ADOLYGIAD BLYNYDDOL TEULUOEDD YN GYNTAF AR GYFER 2017/18 A CHYNIGION DATBLYGU I'R DYFODOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet, Plant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Claire Marchant (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Angela Bourge (Rheolwr Gweithredol, Adnoddau) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, lle trafodd y gwaith da oedd yn cael ei wneud i gynnal darpariaeth i deuluoedd, er gwaetha'r diffyg cyllid. Bydd rhagor o ddatblygiadau yn 2018-2019; mae angen dull mwy integredig.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd yr Aelodau bod 17.4% o'r atgyfeiriadau i Deuluoedd yn Gyntaf yn dod gan ysgolion a gwasanaethau addysg eraill. Nododd y Swyddogion bod staff ar gael mewn ysgolion i roi cyngor a chanllawiau, a bod y Swyddogion Ymgysylltiad Teuluol a'r Rhaglen Cryfhau Teuluoedd hefyd yn cynnig cyngor a chanllawiau. Mae Rhaglen Rhainta Addysg hefyd yn cael ei sefydlu. Mae staff hefyd yn derbyn hyfforddiant.

Trafodd yr Aelodau'r trosglwyddiad o Gweithredu Dros Blant i Deuluoedd yn Gyntaf, a nododd y Swyddogion bod llawer o heriau ynghylch nifer y sefydliadau oedd ynghlwm, roedd wedi bod yn anodd iawn i deuluoedd a swyddogion i reoli'r llwybrau i mewn ac allan. Roedd anawsterau o ran trosglwyddo staff, a phenderfynodd rhai eu bod eisiau gadael gan fod ganddynt ddisgwyliadau gwahanol ac nid oeddent eisiau gweithio i sefydliad gwahanol. Roedd rheoli swyddi gwag a lefelau gwasanaeth hefyd wedi bod yn heriol. Cafodd lefel y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig eu haddasu yn ogystal ag ystod y rhaglenni, mae staff wedi bod yn ystyriol o'r effaith ar deuluoedd sy'n defnyddio Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Holodd yr Aelodau am y cymorth LHDT yn Teuluoedd yn Gyntaf, o ystyried bod y ffigyrau'n isel iawn a chawsant wybod bod carfan o unigolion nad oedd yn defnyddio'r cymorth, mae'n ymwneud â hygyrchedd ac weithiau nid oedd y gwasanaethau'n weladwy. Roedd angen targedu'r cynrychiolaeth isel ymhlith rhai grwpiau ac ymgysylltu â'r grwpiau hynny.

Nododd yr Aelodau bod graddfa uwch o atgyfeiriadau mewn teuluoedd gyda phroblemau lechyd Meddwl, plant a rhieni. Er nad ydynt wastad yn bodloni'r drothwy ar gyfer Gwasanaethau Plant neu Oedolion, mae eu hanghenion yn gymhleth. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Gwasanaethau lechyd Meddwl wedi cael buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffeithluniau a diffyg y niferoedd gwaelodlin gwirioneddol oedd yn rhai ohonynt. Nododd y Swyddogion bod modd eu darparu nhw.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

36 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

37 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD MAWRTH 13 TACHWEDD 2018 AM 4.30 PM

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddydd Mawrth 13 Tachwedd 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm